CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i:	**Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau**
Dyddiad y cyfarfod:	**26 Medi 2022**
Teitl:	**Cyn Ysgol Sir Tregaron – is-grŵp**
Pwrpas yr adroddiad:	**Penderfynu ar aelodaeth o'r is-grŵp a'r camau nesaf**
Am:	**Penderfyniad**

1. CEFNDIR

1.1 Efallai y bydd yr aelodau yn ymwybodol, yn dilyn blynyddoedd lawer o ymgynghoriad cyhoeddus, trafod gyda'r Comisiwn Elusennau a chaniatáu Cynllun elusennol newydd gwerthwyd yr hen Ysgol Sir Tregaron ym mis Chwefror 2022 wedi i'r tabledi Cofeb Rhyfel gael eu hail leoli i Ysgol Henry Richard.

1.2 Penderfynodd Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennol ar 08/07/2021 i:

a) dderbyn y cynnig i brynu Hen Ysgol Tregaron;

b) penderfynu bod y Swyddogion, ar ran yr ymddiriedolaeth, yn dod i gytundeb ac yn cwblhau'r holl ddogfennaeth a materion ategol angenrheidiol, er mwyn bwrw ati i werthu'r eiddo;

c) creu is-grŵp a fydd yn cael ei ddirprwyo, ar ôl gwerthu'r eiddo, i ystyried argymhellion ynghylch sut i ddefnyddio unrhyw gyfalaf neu incwm sydd ym meddiant yr elusen a hynny er mwyn cyflawni amcanion yr elusen. Rhoddir gwybod i gyfarfod y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau am unrhyw argymhellion a ddaw o'r is-grŵp, er mwyn iddynt eu hystyried ac i benderfynu yn eu cylch. Caiff aelodau'r is-grŵp eu henwebu maes o law.

1.3 Rydym bellach yn gallu symud ymlaen gyda phenderfyniad c) uchod.

2. SEFYLLFA ARIANNOL BRESENNOL

2.1 Mae'r Gwasanaethau Cyllid wedi rhoi crynodeb o gyfrif yr ymddiriedolaeth bresennol ac mae'r crynodeb hwn ynghlwm yn Atodiad 1.

2.2 Cyflwynodd swyddogion apêl ym mis Ionawr 2020 i'r Asiantaeth Swyddfa Brisio (ASB) mewn perthynas â'r NNDR a godir ar yr eiddo wrth i swyddogion ddadlau y dylid lleihau'r raddfa i sero gan fod yr eiddo yn wag, mewn cyflwr gwael ac ym meddiant yr elusen yn unig, nid gan y Cyngor fel Awdurdod Addysg Leol (AALl). Os bydd yr apêl yn rhannol neu'n gwbl lwyddiannus, dylai arwain at addasu'r raddfa ar yr eiddo yn ôl i 01/04/2017 a chynhyrchu ad-daliad fodd bynnag rydym yn dal i aros am ganlyniad yr apêl hon ac mae gohebiaeth yn parhau rhwng swyddogion y Cyngor a'r ASB ar y mater. Yn dibynnu ar ganlyniad yr apêl honno, gall y cyfanswm a gedwir yng nghyfrif yr ymddiriedolaeth, fel y cyfeirir ato yn Atodiad 1, gynyddu.

3. IS-GRŴP

3.1 Y cam nesaf i'r ymddiriedolwr yw ystyried pwy fydd yn cael ei benodi/ei wahodd i'r is-grŵp y cyfeirir ato yn y penderfyniad o 08/07/2022 fel y gall y drafodaeth honno ddechrau ar sut y defnyddir yr arian a ddelir gan yr ymddiriedolwr tuag at amcanion yr elusen. Yna byddai unrhyw argymhellion gan yr is-grŵp yn cael eu dwyn gerbron y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau i'w hystyried a'u penderfynu.

3.2 Mae atodiad 2 yn dangos y Cynllun a ganiatawyd gan y Comisiwn Elusennau yn 2019 ac mae adrannau 3 a 4 o'r Cynllun yn nodi y caiff cyfalaf a'r incwm o enillion net unrhyw werthiant (felly, gan gynnwys arwerthiant diweddar yr ysgol a'r hen arwerthiant o dŷ'r ysgol o'r 1970au) gael eu defnyddio tuag at amcanion yr elusen sy'n hyrwyddo addysg i blant cyn-ysgol a phlant oed ysgol yn Nhregaron.

3.3 Y Pwyllgor sydd i benderfynu pwy fydd yn cael gwahoddiad i eistedd ar yr is-grŵp ond awgrymir bod y Pwyllgor yn ystyried cynnwys Pennaeth Ysgol Henry Richard, cynrychiolydd o Gylch Meithrin Tregaron, yr Aelod lleol, Gwasanaethau Cyfreithiol a swyddog o'r AALl yn ogystal â pha bynnag Aelod o'r Pwyllgor sy'n cael eu henwebu.

3.4 Bydd angen i'r is-grŵp, wrth wneud unrhyw argymhellion, a'r Pwyllgor, wrth wneud unrhyw benderfyniadau, fod yn ymwybodol y bydd angen gwneud unrhyw benderfyniadau er budd gorau'r ymddiriedolaeth yn unig ac na ellir defnyddio'r arian i hyrwyddo unrhyw bolisi neu ddymuniad i'r AALl neu ddarparu unrhyw beth sydd eisoes yn ofyniad ar y Cyngor fel YR AALl i'w ddarparu.

3.5 Efallai y bydd y Pwyllgor hefyd am ystyried cynnal ymarfer ymgynghori ar-lein (yn debyg i'r hyn a gynhaliwyd mewn perthynas ag adleoli'r Dabled Goffa Ryfel) i gael barn gan y cyhoedd ynghylch yr hyn yr hoffent weld yr arian yn cael ei roi tuag ato er mwyn datblygu addysg i blant oedran cyn ysgol ac oed ysgol yn Nhregaron. Byddai Gwasanaethau Cyfreithiol yn argymell cynnal ymgynghoriad cyhoeddus o'r fath gan y byddai'n cynorthwyo i lywio a chanolbwyntio trafodaethau yn yr is-grŵp a fyddai hefyd yn ymgysylltu'r cyhoedd yn y broses, gan eu bod wedi'r cyfan, yn fuddiolwyr o'r ymddiriedolaeth.

Argymhelliad(au):

1. **Penodi Aelodau'r Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau i'r is-grŵp y cyfeirir ato yn adran 3 o'r adroddiad hwn;**

2. **I wahodd Pennaeth Ysgol Henry Richard, cynrychiolydd o Gylch Meithrin Tregaron, yr Aelod lleol, swyddog o'r Gwasanaethau Cyfreithiol a swyddog o'r AALl i ymuno â'r is-grŵp ynghyd ag unrhyw bersonau eraill a gynigiwyd ac y cytunwyd arnynt yn ystod y Pwyllgor;**

3. **I swyddogion, ar ran yr ymddiriedolwr, gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar-lein fel y cyfeirir ato ym mharagraff 3.5 o'r adroddiad hwn.**

Rhesymau dros y penderfyniad:	**I hybu gwrthrychau'r ymddiriedolaeth elusennol.**
Atodiadau:	**Atodiad 1 – Crynodeb Ariannol o gyfrif yr Ymddiriedolaeth hyd at 22/08/2022.** **Atodiad 2 – Cynllun Comisiwn Elusennau 07/02/2019**
Pennaeth y Gwasanaeth:	**Elyn Prysor – SAC Llywodraethiant a Gwasanaethau Cyfreithiol**
Swyddog Adrodd:	**Louise Harries – Cyfreithiwr**
Dyddiad:	**02/09/2022**

ATODIAD 1 – CRYNODEB ARIANNOL O GYFRIF YR YMDDIRIEDOLAETH HYD AT 22/08/2022

Ar 1 Ebrill 2018, roedd gan y cyfrif ddiffyg o £6,381.30. Ers hynny, derbyniwyd yr incwm canlynol:

Gwerthu Asedau	£160,000.00
Incwm Buddsoddi	£7,247.13
Ardoll Cyfansawdd	£490.00

Yn yr un modd, mae'r gwariant canlynol wedi'i gynnal:

NNDR	£77,210.43
Ffioedd Prisio	£1,806.90
Hysbysiadau	£1,743.50
Ffioedd cynllunio	£250.00
Mân Waith	£1,700.00

Y sefyllfa bresennol fel ar 22/08/2022 yw:

Arian parod yn banc	£78,645
Arbedion Cenedlaethol	£22,000
Cyfanswm:	**£100,645**